# Cwestiynau Llafar y Cynulliad

## a gyflwynwyd ar 10 Mai 2001 i'w hateb ar 24 Mai 2001

**R Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**

**W Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros Gymunedau

**1. John Griffiths (Dwyrain Casnewydd);** A wnaiff ddatganiad ar y sefyllfa ddiweddaraf mewn perthynas â cheiswyr lloches yng Nghymru. (OAQ11674)

**2. Janet Davies (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff ddatganiad ar y canllawiau a roddwyd i Awdurdodau Lleol ynghylch darparu gwybodaeth i denantiaid a effeithir yn sgil trosglwyddo'r stoc dai. (OAQ11575)

**3. Peter Black (Gorllewin De Cymru);** Pa gamau y mae'n eu cymryd i geisio sicrhau y bydd Cynghorau lleol yn cynhyrchu strategaeth ar gyfer y digartref. (OAQ11612) **R**

**4. Lynne Neagle (Tor-faen);** A wnaiff ddatganiad ar waith y Partneriaethau Gostwng Troseddu o ran mynd i'r afael â chamddefnydd cyffuriau a throseddau'n gysylltiedig â chyffuriau yng Nghymru. (OAQ11652)

**5. David Melding (Canol De Cymru);** A wnaiff ddatganiad ar yr arfer o glustnodi symiau at ddibenion penodol wrth ddyrannu cyllid refeniw i awdurdodau lleol. (OAQ11598)

**6. Dafydd Wigley (Caernarfon);** A wnaed unrhyw asesiad o'r angen am ombwdsmon ar gyfer tai yng Nghymru. (OAQ11562)**TYNNWYD YN OL**

**7. Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** Sut y mae ei pholisïau yn hybu cynhwysiant cymdeithasol yng Nghanol De Cymru. (OAQ11611)

**8. Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff ddatganiad ar ei pholisi o gyflwyno treth fusnes leol. (OAQ11654)

**9. David Melding (Canol De Cymru);** A wnaiff ddatganiad ar grantiau cyfleusterau i'r anabl ac unrhyw newidiadau arfaethedig i arweiniad y Cynulliad yn y maes hwn. (OAQ11599)

**10. Christine Gwyther (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro);** A wnaiff ddatganiad ar y cynnig y dylai awdurdodau lleol allu codi treth ar dwristiaid. (OAQ11605) **TYNNWYD YN OL**

**11. Gareth Jones (Conwy);** A oes ganddi unrhyw gynlluniau i drafod â Llywodraeth y DU ynghylch diwygio'r rheoliadau adeiladu er mwyn cynorthwyo i ddatblygu arferion cynaliadwy wrth adeiladu eiddo preswyl newydd a gwella hen rai. (OAQ11649)

**12. Eleanor Burnham (Gogledd Cymru);** A yw'n bwriadu cynnwys mewn rheoliadau unrhyw amod ynghylch penodi aelodau o grwpiau'r gwrthbleidiau fel cadeiryddion pwyllgorau craffu'r Cynghorau. (OAQ11656)

**13. Ieuan Wyn Jones (Ynys Môn);** A wnaiff roi adroddiad ar drafodaethau ac unrhyw gyfathrebu arall a gafwyd rhyngddi a'r Swyddfa Gartref a'r Ysgrifennydd Gwladol ynghylch ceiswyr lloches yng Nghymru. (OAQ11558)

**14. Janet Ryder (Gogledd Cymru);** A wnaiff ddatganiad ar yr arweiniad a ddosbarthwyd i awdurdodau lleol mewn perthynas â'u rôl yn y gwaith o weinyddu'r cynllun Rhoi Cymunedau'n Gyntaf. (OAQ11576)

**15. William Graham (Dwyrain De Cymru);** A wnaiff ddatganiad ynghylch safonau ymddygiad a Chynghorau Bwrdeistref Sirol. (OAQ11675)

**16. Mick Bates (Sir Drefaldwyn);** A wnaiff amlinellu polisïau'r weinyddiaeth yn ymwneud â throsglwyddo'r stoc dai. (OAQ11606)

**17. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);** A wnaiff ddatganiad ynghylch y ddarpariaeth ar gyfer ceiswyr lloches yng Nghymru. (OAQ11553)

**18. Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A fydd ei swyddogion yn rhoi cyfarwyddyd pellach i'r awdurdodau lleol sy'n delio â cheisiadau am iawndal gan gynnwys gostyngiadau mewn trethi busnes gan fusnesau sydd wedi'u heffeithio gan Glwy'r Traed a'r Genau. (OAQ11613)

**19. Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru);** A oes cynlluniau ar y gweill i adolygu'r cyfarwyddyd a roddwyd i'r Awdurdodau Lleol ar sut i ddyrannu tai cyngor. (OAQ11567) **TYNNWYD YN OL**

**20. Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch y polisïau sy'n ymwneud â thai mewn perthynas ag adeiladwyr yn y sector preifat. (OAQ11660)

**21. Helen Mary Jones (Llanelli);** A wnaiff ddatganiad ynghylch y trefniadau presennol ar

gyfer cynorthwyo ceiswyr lloches yng Nghymru. (OAQ11559)

**22. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed);** A wnaiff amlinellu canlyniad yr ymgynghori ar reoliadau i ddatgan y dylai cyfarfodydd Cabinetau'r Cynghorau yng Nghymru gael eu cynnal yn gyhoeddus. (OAQ11650)

**23. Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff amlinellu ei chynlluniau ar gyfer helpu i adfywio'r cymunedau hynny yng Nghymru sy'n dibynnu'n drwm ar amaethyddiaeth a thwristiaeth, ac wedi cael eu heffeithio'n wael gan Glwy'r Traed a'r Genau. (OAQ11610)

**24. Val Feld (Dwyrain Abertawe);** A wnaiff ddatganiad ynghylch y gwaith y mae'r Cynulliad wedi'i wneud hyd yma ar "Rhoi Cymunedau'n Gyntaf". (OAQ11676)

**25. Helen Mary Jones (Llanelli);** A wnaiff ddatganiad ynghylch cymorth i'r ceiswyr lloches sy'n cael eu cadw yng Ngharchar Caerdydd ar hyn o bryd. (OAQ11560)

**26. Eleanor Burnham (Gogledd Cymru);** Pryd y mae'n rhagweld y bydd deddfwriaeth yn cael ei dwyn ymlaen ar symud dyddiad yr etholiadau llywodraeth leol nesaf yng Nghymru. (OAQ11653)

**27. Brian Hancock (Islwyn);** A wnaiff ddatganiad ynghylch yr amserlen ar gyfer gweithredu rhaglenni Rhoi Cymunedau'n Gyntaf. (OAQ11564) **TYNNWYD YN OL**

**28. Janet Ryder (Gogledd Cymru);** A wnaiff ddatganiad ynghylch rôl yr Archwilwyr Mewnol o fewn Llywodraeth Leol. (OAQ11555) **TYNNWYD YN OL**

**29. Christine Chapman (Cwm Cynon);** A wnaiff adroddiad ar y camau a gymerwyd hyd yma i foderneiddio llywodraeth leol yng Nghymru. (OAQ11655)**TYNNWYD YN OL**

**30. Owen John Thomas (Canol De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar godiadau diweddar mewn trethi cyngor yng Nghanol De Cymru. (OAQ11569) W

Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros yr Amgylchedd

**1. Janet Davies (Gorllewin De Cymru);** A yw'r Gweinidog yn ystyried caniatáu ymgorffori'r iaith Gymraeg fel ystyriaeth wrth neilltuo defnydd tir yn y Cynlluniau Datblygu Unedol lle byddai hynny'n briodol. (OAQ11663)

**2. Brian Hancock (Islwyn);** Pa fesurau fydd hi yn eu cymeryd i wella'r rhwydwaith trafnidiaeth. (OAQ11644)

**3. Alun Cairns (Gorllewin De Cymru**); A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ei pholisi tuag at losgi gwastraff domestig ac annomestig. (OAQ11670)

**4. Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr);** A yw hi'n bwriadu symleiddio'r broses gynllunio ar gyfer ffermydd gwynt ar y môr. (OAQ11634)

**5. Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** A wnaiff hi adrodd ar y newidiadau diweddar a wnaed i'r seilwaith trafnidiaeth yng Nghaerdydd. (OAQ11641)

**6. Richard Edwards (Preseli Sir Benfro);** A wnaiff hi ddatganiad ar y cyfyngiadau ac ar ddiogelwch ar ffyrdd Cymru. (OAQ11607)

**7. Geraint Davies (Rhondda);** Pa gamau fydd hi'n eu cymeryd i gyfyngu ar ganran y gwastraff sy'n mynd i safleoedd tirlenwi. (OAQ11658)**TYNNWYD YN OL**

**8. Christine Gwyther (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro);** A wnaiff roi adroddiad ar gynnydd y buddsoddi mewn trafnidiaeth yng Nghymru. (OAQ11589) **TYNNWYD YN OL**

**9. Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr);** A wnaiff y TAN 8 diwygiedig symleiddio'r broses gynllunio ar gyfer ffermydd gwynt sydd wedi'u lleoli ar y môr. (OAQ11633)

**10. Helen Mary Jones (Llanelli);**. Pa gymorth all polisïau cynllunio yng Nghymru eu cynnig ar gyfer datblygiad ynni adnewyddadwy. (OAQ11626

**11. Eleanor Burnham (Gogledd Cymru);** Pa grantiau cyfalaf sydd wedi cael eu cyflwyno ar gyfer datblygu ffermydd gwynt yn y môr o amgylch Cymru. (OAQ11677)

**12. John Griffiths (Dwyrain Casnewydd**); Pa gamau gaiff eu cymeryd i ddatblygu ymhellach compostio yng Nghymru fel rhan o'n Strategaeth Gwastraff. (WAQ11661)

**13. Peter Law (Blaenau Gwent);** pa gamau y mae hi'n eu cymeryd i annog datblygiad y rhwydwaith reilffyrdd yng Nghymru. (OAQ11596)

**14. Gwenda Thomas (Castell-nedd)** Pa gynlluniau sydd gennych i ymestyn Project Afon Pelena i afonydd eraill Cymru. (OAQ11590)

**15. David Melding (Canol De Cymru);** Faint o gerddwyr a laddwyd ar ffyrdd Cymru y llynedd a hyd yma eleni, lle bo ffigurau ar gael. (OAQ11657)

**16. Janet Ryder (Gogledd Cymru);** A wnaiff ddatganiad ar effaith amgylcheddol clwy'r traed

a’r genau. (OAQ11646) **TYNNWYD YN OL**

**17. Gwenda Thomas (Castell-nedd);** Beth fydd manteision gosod goleuadau traffig ar gyffordd 45 traffordd yr M4 i Ben Uchaf Cwm Tawe a Chwm Aman o ran cynnydd mewn buddsoddiad. (OAQ11591)

**18. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);** A yw hi’n bwriadu rhoi canllawiau diwygiedig i Asiantaeth yr Amgylchedd ar gyfer monitro allyriadau ymbelydrol. (OAQ11630) **TYNNWYD YN OL**

**19. Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pryd oedd y tro diwethaf iddi drafod y Glöyn Byw Brith Perladeiniog gyda Chadeirydd Cyngor Cefn Gwlad Cymru. (OAQ11640)

**20. Eleanor Burnham (Gogledd Cymru);** A yw’r Gweinidog wedi cael unrhyw drafodaethau gyda Chyngor Cefn Gwlad Cymru mewn perthynas ag effaith cnydau GM ar fioamrywiaeth. (OAQ11669)

**21. Peter Black (Gorllewin De Cymru);** Pa fesurau y mae hi’n ystyried eu cyflwyno i ostwng y gwastraff sy’n cael ei waredu mewn claddfeydd sbwriel yng Nghymru. (OAQ11594)

**22. Pauline Jarman (Canol De Cymru);** Pa gamau fydd hi’n eu cymryd i gynyddu cyfran y gwastraff t a ailgylchir. (OAQ11622) **TYNNWYD YN OL**

**23. Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A fydd asesiad yn cael ei gynnal o sgil-effeithiau amgylcheddol tymor hir posibl Clwy’r Traed a’r Genau. (OAQ11643)

**24. Janet Davies (Gorllewin De Cymru);** A yw’r Gweinidog yn ystyried gwneud "tai y gellir eu fforddio" yn un o’r meini prawf ar gyfer neilltuo’r defnydd o dir mewn Cynlluniau Datblygu Unedol. (OAQ11637) **TYNNWYD YN OL**

**25. David Melding (Canol De Cymru);** A wnaiff ddatganiad ar y broses o bennu parthau cyflymder 20 milltir yr awr mewn ardaloedd dinesig. (OAQ11597)

**26. Pauline Jarman (Canol De Cymru);** Pa gamau fydd hi’n eu cymryd i leihau gwastraff. (OAQ11623) **TYNNWYD YN OL**

**27. Gareth Jones (Conwy);** A yw hi’n bwriadu cyflwyno Datganiadau Effaith Iechyd ar gyfer pob datblygiad dibreswyl. (OAQ11615) **TYNNWYD YN OL**

**28. William Graham (Dwyrain De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog roi manylion y trafodaethau y mae wedi’u cael gyda Chyngor Cefn Gwlad Cymru, NFU Cymru a Bwrdd Croeso Cymru

mewn perthynas â mynediad i gefn gwlad a’r defnydd o gefn gwlad ar gyfer amaeth a thwristiaeth. (OAQ11668)

**29**. **Helen Mary Jones (Llanelli);** Pa gamau all y Gweinidog eu cymryd i sicrhau fod cymorth ar gyfer datblygiadau ynni adnewyddadwy wedi’i integreiddio i’r system gynllunio. (OAQ11627)
**TYNNWYD YN OL**

**30. Delyth Evans (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A oes gan y Gweinidog unrhyw gynlluniau i adolygu proses apeliadau cynllunio y Cynulliad Cenedlaethol, er mwyn cyflymu’r broses. (OAQ11609)